**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-0423-23

Llŷr Gruffydd AS
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

15 Chwefror 2023

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich adroddiad manwl a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr 2023. Hoffwn i ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am ei waith diwyd ar Fil Banc Seilwaith y DU. Rwyf wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a'r pwyntiau a godir yn eich Adroddiad isod.

**Argymhelliad 1.** Byddwch yn ymwybodol bod dadl wedi'i chynnal ar 17 Ionawr 2023 ac rwy'n credu fy mod wedi mynd i'r afael â'r argymhellion isod yn ystod y ddadl, ar eich cais. Rwy'n falch bod y Senedd wedi cydsynio i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Argymhelliad 2.** Rwy'n croesawu ehangu'r diffiniad o awdurdodau cyhoeddus i'w gwneud yn glir y gall y Banc fenthyca i ystod ehangach o awdurdodau cyhoeddus datganoledig, yn hytrach nag i Awdurdodau Lleol yn unig. Byddai'n rhaid ystyried pa mor briodol yw benthyca i awdurdod cyhoeddus penodol ac unrhyw effaith ar eu trefniadau cyllid, fesul achos.

**Argymhelliad 3.** Yn ein trafodaethau, gwnaethom ddadlau bod angen i fuddiannau datganoledig gael eu hadlewyrchu'n briodol yn y Bil, a gwnaethom yn glir pa gymalau oedd yn peri problem mewn perthynas â'r setliad datganoli. O ran rôl y Senedd, fel y nodais yn fy sylwadau yn ystod y ddadl, byddaf yn sicrhau bod y Llywodraeth yn ymgynghori ag Aelodau pan fydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Gobeithiaf y bydd hyn yn helpu i leddfu eich pryderon am rôl y Senedd wrth graffu ar arfer pwerau.

Rwy'n rhannu siom y Pwyllgor na chadwyd y gwelliant y cytunwyd arno gan Dŷ'r Arglwyddi i ehangu'r diffiniad o seilwaith i gynnwys 'atebion sy'n seiliedig ar natur' yng ngham Tŷ'r Cyffredin.

Nodaf eich sylwadau ar amseru'r ddadl yn dilyn cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (rhif 3). Rwy'n cydnabod mai dim ond ychydig o amser gafodd ei neilltuo ar gyfer craffu o ganlyniad. Fodd bynnag, roedd hyn yn dibynnu ar amserlen Senedd y DU ac nid Llywodraeth Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn olaf, rwy'n falch eich bod yn croesawu'r gwelliant i sicrhau bod Bwrdd y Banc yn cynnwys o leiaf un cyfarwyddwr i gynrychioli buddiannau Cymru.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government